# TAFLEN NEWYDDION CYMUNEDOL
# LLANDYFAELOG
# COMMUNITY NEWSLETTER



## **CYFLWYNIAD / INTRODUCTION**

Croeso i Rifyn Gaeaf Daflen Newyddion Chwarterol Cymunedol Llandyfaelog.

Cyhoeddir y Daflen Newyddion trwy'r Wefan Gymunedol www.llandyfaelog.org.uk, ond os hoffech gael eich cynnwys ar y rhestr dosbarthiad trwy e-bost, cysylltwch ag Arfon Davies Clerc Cyngor Cymuned Llandyfaelog Llandyfaelog@btinternet.com

Er eich gwybodaeth mae'r rhannau Gymraeg o'r Cylchlythyr mewn coch â'r Saesneg yn glas.

Bydd y Clerc yn hapus i dderbyn eich sylwadau neu erthyglau ar gyfer y Rhifyn nesaf erbyn 1af Mawrth 2023.

Welcome to the Winter Edition of the Llandyfaelog Quarterly Community Newsletter.

The Newsletter is published on the Community Website www.llandyfaelog.org.uk, however if you would like to be included on the email distribution list, please contact Arfon Davies, Llandyfaelog Community Council Clerk Llandyfaelog@btinternet.com

For ease of reference the parts of the Newsletter in Welsh are in red with the English in Blue.

The Clerk will be happy to receive your comments or articles for the next Edition by 1st March 2023.

## Cyngor Cymuned Llandyfaelog Community Council

| Dyddiadau Cyfarfodydd y Cyngor | Council Meeting Dates |
|---|---|
| 5 Ionawr 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 5 January 7.30pm Llandyfaelog Hall |
| 2 Chwefror 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 2 February 7.30pm, Llandyfaelog Hall |
| 2 Mawrth 7.30yh, Neuadd Llandyfaelog | 2 March 7.30pm, Llandyfaelog Hall |

Gellir gweld cofnodion ac agenda cyfarfodydd y Cyngor Cymuned yn
Cyfarfod, Agenda a Chofnodion - Llandyfaelog Community Council - Cym (visionict.com)

Community Council minutes and meeting agenda can be found at
Meetings, Agendas and Minutes - Llandyfaelog Community Council - Eng

## Neuadd Cymunedol Llandyfaelog Community Hall

## Clwb 100 2022 / 2022 100 Club

### Medi 2022 / September 2022

| | | |
|---|---|---|
| 1st | 94 Alan Jones, Star Forge | £30 |
| 2nd | 137 Hugh a Lynwen Anderson | £20 |
| 3rd | 52 Huw Walters | £10 |
| 4th | 126 Ian Brown | £10 |

### Hydref 2022 / October 2022

| | | |
|---|---|---|
| 1st | Ann Rees | £30 |
| 2nd | Idris Owen | £20 |
| 3rd | Llandyfaelog Short Mat Bowls | £10 |
| 4th | Sian Elin Harries | £10 |

### Tachwedd 2022 / November 2022

| | | |
|---|---|---|
| 1st | 98 Nicola Jones | £30 |
| 2nd | 54 Elinor Hughes | £20 |
| 3rd | 78 Rowena Phillips | £10 |
| 4th | 23 Marjorie Thomas | £10 |

### Rhagfyr 2022 / December 2022

| | | |
|---|---|---|
| 1st | Richard Thomas | £100 |
| 2nd | Ela Fflur | £75 |
| 3rd | William Morris | £50 |
| 4th | Mary Jones | £40 |
| 5th | Shan Cheesman | £30 |
| 6th | Mary Douch | £20 |
| 7th | Edwin Atkinson | £10 |

**Ŵyl Nadolig Llandyfaelog**
**Llandyfaelog Christmas Festival**

Cafwyd noson hwylus iawn gyda chwmni Siôn Corn ar ddydd Llun 5ed Rhagfyr yn Ŵyl Nadolig Llandyfaelog. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog gyda gweithgareddau a stondinau yn y Neuadd a'r maes parcio. Perfformiodd Owen a Linda Jones, Star Forge y Seremoni Goleuo'r Goeden Nadolig.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i Fand Croesyceiliog (yn codi arian dros banc bwyd Caerfyrddin) a Phlant y Cymuned (o dan goruchwyliaeth Helen Davies a Carys Thomas) am yr adloniant a'r gerddoriaeth. Diolch hefyd i'r holl gynorthwywyr am roi'r goeden yn ei lle eto ynghyd â'u cefnogaeth gyda'r trefniadau ar gyfer Grotto Sion Corn a'r stondinau.

Diolch arbennig i Welsh Reindeer Retreat am edrych ar ôl Gyfeillion Ceirw Siôn Corn am y noson.

A very entertaining evening was spent with Father Christmas on Monday 5th December at the Llandyfaelog Christmas Festival. The event was held at Llandyfaelog Community Hall with activities and stalls in the Hall and the car park. Owen and Linda Jones, Start Forge performed the Christmas Tree Lighting Ceremony.

The Committee would like to thank Band Croesyceiliog (raising funds for Carmarthenshire Foodbank) and the Children of the Community (under the supervision of Helen Davies and Carys Thomas) for the entertainment and music. Thanks also to all the helpers for putting the tree in place again along with their support with the arrangements for the Santa's Grotto and stalls.

Special thanks to the Welsh Reindeer Retreat for looking after Father Christmas' Reindeer Friends for the evening.







Cefnogwyd rhoddion Siôn Corn i’r plant gan Gadeirydd y Neuadd, Rowena Phillips. Yn dilyn y digwyddiad rhoddwyd gweddill yr anrhegion i apêl Blwch Tegannau Cyngor Sir Caerfyrddin. Ymwelodd Rowena â'r apêl i ddosbarthu'r rhodd.

Father Christmas’ gifts to the children were supported by Hall Chair Rowena Phillips. Following the event the remaining presents were donated to the Carmarthenshire County Council Toybox appeal. Rowena visited the appeal to deliver the donation.



## LLONGYFARCHIADAU / CONGRATULATIONS

Llongyfarchiadau i Willy a Rowena Phillips o Gilmarch ar eu penblwydd Priodas Ddiemwnt ddiweddar.

Congratulations are noted to Willy and Rowena Phillips of Cilmarch on their recent Diamond Wedding anniversary.

## NEWYDDION PWYLLGOR APÊL URDD 2023 LLANISHMAEL

Ar nos Wener 28ain Hydref cynhaliwyd noson *Ffasiwn, Ffizz a Phwdin* yn Neuadd Llandyfaelog. Dyma benllanw ymgyrch Pwyllgor Apêl yr ardal i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2023.

Roedd Neuadd Llandyfaelog dan ei sang, gyda phobl wedi dod o bell ac agos. Cafwyd noson i'w chofio, llawn hwyl a chwerthin, yng nghwmni *Siop Ddillad Nanette*, Cydweli a *Calon Mam*, Llanpumsaint. Diolch i Nanette a Helen am lwyfannu'r noson, ac am roi talebau ar gyfer y raffl.

Croesawyd pawb i'r neuadd gyda gwydred o ffizz a dewis o bwdinau cartref. Daeth cyfle wedyn i bawb eistedd nôl, ac i gyfeiliant cân *Hei Mistar Urdd*, agorwyd y noson gan bobl ifanc yr ardal yn modelu crysau T, hwdis a zwdis Eisteddfod 2023.

Tro *Calon Mam* oedd hi i droedio'r llwyfan nesa, ac yn eu sioe ffasiwn gyntaf erioed, dangoswyd casgliad hyfryd o ddillad hamdden i'r teulu cyfan. Braf oedd gweld

cymaint o ddyluniadau gwreiddiol yn Gymraeg, a gweld y dewisiadau o bob lliw a llun ar gyfer personoli dillad, ategolion a nwyddau i'r cartref.

Menna James, Cwmffrwd oedd Llywydd y Noson, a hoffai'r Pwyllgor ddiolch iddi am ei rhodd anrhydeddus i goffrau'r apêl. Cafwyd ganddi anerchiad pwrpasol a difyr yn cofio am hanesion a helyntion steddfodau'r gorffennol; ac yn nodi'r cyfleoedd a'r profiadau y mae ein heisteddfodau lleol a chenedlaethol fel ei gilydd yn cynnig i'n pobl ifanc heddi.

Wedi egwyl fer, aeth y noson yn ei blaen gyda sioe gofiadwy gan *Siop Nanette*. Daeth Nanette a deuddeg model gyda hi, ac roedd pob un ohonynt wedi bod yn y siop yn dewis gwisgoedd a chyfwisgoedd i'w modelu. Dangoswyd dros hanner cant o "outfits" amrywiol, o ddillad hamdden i ddillad ffurfiol, cotiau ac ategolion ar gyfer pob achlysur.

Codwyd dros £500, sy'n golygu fod y Pwyllgor bellach wedi cyrraedd eu targed o godi £6,000. Diolch arbennig i aelodau'r Pwyllgor, o dan gadeiryddiaeth Carys Thomas, am eu gwaith, ac i Gyngor Cymuned Llandyfaelog, a'r gymuned gyfan am eu cefnogaeth i'r Urdd.

## **ST ISHMAELS URDD APPEAL COMMITTEE NEWS 2023**

On Friday 28th October a Fashion, Fizz and Dessert night was held in Llandyfaelog Hall. This is the culmination of the area's Appeal Committee's campaign to raise money towards the Carmarthenshire Urdd Eisteddfod 2023.

Llandyfaelog Hall was packed, with people coming from far and wide. There was an evening to remember, full of fun and laughter, in the company of Nanette's Clothing Shop, Kidwelly and Calon Mam, Llanpumsaint. Thanks to Nanette and Helen for staging the evening, and for giving vouchers for the raffle.

Everyone was welcomed to the hall with a glass of fizz and a selection of homemade desserts. There was then an opportunity for everyone to sit back, and enjoy the evening which was opened by the young people of the area modeling Eisteddfod 2023 T-shirts, hoodies and zudis.

It was Calon Mam's turn to take the stage next, and in their first ever fashion show, a beautiful collection of leisure clothes was shown for the whole family. It was nice to see so many original designs in Welsh, and to see the choices of all shapes and sizes for personalizing clothes, accessories and goods for the home.

Menna James, Cwmffrwd was the President of the Night, and the Committee would like to thank her for her donation to the appeal coffers. She gave a purposeful and entertaining address remembering the stories and troubles of the past; and identified the opportunities and experiences that our local and national institutions alike offer to our young people today.

After a short break, the evening continued with a memorable show by Siop Nanette. Nanette brought twelve models with her, all of whom had been in the shop choosing

dresses and accessories to model. Over fifty different "outfits" were shown, from leisure clothes to formal clothes, coats and accessories for every occasion.

Over £500 was raised, which means that the Committee have now reached their target of raising £6,000. Special thanks to the members of the Committee, chaired by Carys Thomas, for their work, and to Llandyfaelog Community Council, and the whole community for their support for the Urdd.

## Eisteddfod Gadeiriol Llandyfaelog 2022

Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn yn Neuadd Llandyfaelog ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 3ydd wedi bwlch o ddwy flynedd. Y beirniaid eleni oedd :- Cerdd – Helen Wyn, Brynaman; Llefaru – Bronwen Morgan, Llangeitho; Llên – Eurig Salisbury, Aberystwyth; Celf – Gareth Morgan, Cwmffrwd.

Bu Geraint Rees, Idole a Jonathan Morgan, Y Tymbl yn cyfeilio ar gyfer y cystadlaethau lleol gyda Jonathan ar gyfer y cystadlaethau agored.

Llywydd prynhawn yr eisteddfod eleni oedd Glenys Lewis, Nant-llan, Llandyfaelog, un sy'n wraig gefnogol i'w bro a'r diweddar Gynghorydd Mair Stephens oedd wedi ei dewis yn Llywydd yr hwyr. Gan i Mair farw yn Ionawr eleni, cyflwynodd Rhiannon Roberts, cadeirydd y pwyllgor, deyrnged iddi yn nodi ei chyfraniad i'w chymuned a'i sir.

Enillwyd Cadair yr Eisteddfod gan Terwyn Tomos, Llandudoch gyda cherdd ar y testun "Môr". Yr oedd y gadair hardd yn rhoddedig gan Graham a Shân Rees a'r teulu, Cartref, Llandyfaelog. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Gruffudd ab Owain, Y Bala. Roedd y tlws a'r wobr ariannol yn rhoddedig gan Huw John, Peniel.

Cyflwynwyd Cwpan Coffa John a Nan Anderson, Trelimsey i Ioan Jones, Ysgol Gwenllian am fod y cystadleuydd lleol o dan 11 oed sydd yn dangos yr addewid fwyaf. Cyflwynwyd Ysgoloriaethau Dr. Ron a Mrs. Betty Rees i'r cystadleuydd gorau yn lleol o dan 16 oed i Harri Jones, Ysgol Bro Myrddin (cerddoriaeth) ac i Ioan Jones, Ysgol Gwenllian (llefaru). Cyflwynwyd cwpan her i'r ysgol leol uchaf ei marciau i Ysgol Llangynnwr.

Mae aelodau'r pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a chefnogaeth tuag at lwyddiant yr eisteddfod. Dyma restr o'r buddugol ymhob cystadleuaeth.

A very successful Eisteddfod was held in Llandyfaelog Hall on Saturday, December 3rd after a gap of two years. The judges this year were:- Music – Helen Wyn, Brynaman; Speech – Bronwen Morgan, Llangeitho; Literature – Eurig Salisbury, Aberystwyth; Art – Gareth Morgan, Cwmffrwd.

Geraint Rees, Idole and Jonathan Morgan, Y Tumble accompanied for the local competitions with Jonathan for the open competitions.

The President of the afternoon of the Eisteddfod this year was Glenys Lewis, Nantllan, Llandyfaelog and for the evening competitions, Councilor Mair Stephens.

As Mair had passed away in January this year, Rhiannon Roberts, chair of the committee, presented a tribute to her noting her contribution to her community and county.

The Eisteddfod Chair was won by Terwyn Tomos, Llandudoch with a poem on the subject "Môr". The beautiful chair was donated by Graham and Shân Rees and the family, Cartref, Llandyfaelog. The Young Trophy was won by Gruffudd ab Owain, Bala. The trophy and the cash prize were donated by Huw John, Peniel.

The John and Nan Anderson, Trelimsey Memorial Cup was presented to Ioan Jones, Ysgol Gwenllian for being the local under 11 competitor who shows the most promise. Scholarships were presented. Ron and Mrs. Betty Rees for the best competitor locally under the age of 16 to Harri Jones, Ysgol Bro Myrddin (music) and to Ioan Jones, Ysgol Gwenllian (speech). A challenge cup was presented to the local school with the highest marks to Ysgol Llangynnwr.

The members of the committee appreciate every contribution and support towards the success of the Eisteddfod. Winners in each competition were as follows.

**CERDD** (lleol)
Unawd Bl. 1 a 2 – 1. Alaw Fflur Evans, 2. Beca Eluned Davies, 3. Nellie Williams Holder; Unawd Bl. 3 a 4 – 1. Gwenllian Francis Jones, 2. Alis Gibbard, 3. Idris Gwyn; Unawd Bl. 5 a 6 – 1. Ioan Jones, 2. Beca Morris; Unawd offeryn cerdd ysgolion cynradd – 1. Beca Morris, 2. Lewys Owen; Parti unsain dan 16 – 1. Ysgol Llangynnwr, Parti 2, 2. Ysgol Llangynnwr, Parti 3, 3. Ysgol Llangynnwr, Parti 1; Unawd Bl. 7-11 – 1. Harri Jones, 2. Hâf Jones.

**LLEFARU** (lleol)
Llefaru Bl. 1 a 2 – 1. Alaw Fflur Evans, 2. Beca Eluned Davies, 3. Greta Marged Wyn; Llefaru Bl. 3 a 4 – 1. Alys Evans, 2. Alis Gibbard, 3. Isabel Hughes; Llefaru Bl. 5 a 6 – 1. Ioan Jones, 2. Beca Morris.

**CELF A THECHNOLEG** (lleol)
Celf dan 5 oed – 1. Clara, Ysgol Y Fro, 2. Heidi Davies, Ysgol Mynydd-y-garreg, 3. Miriam Haf Wyn, Ysgol Llangynnwr. Celf Blwyddyn 1 a 2 – 1. Greta Marged Wyn, Ysgol Llangynnwr, 2. – Maise Williams, Ysgol Llangynnwr, 3. Dylan Labacik, Ysgol Mynydd-y-garreg. Celf Blwyddyn 3 a 4 – 1. Khaleesi, Ysgol Llangynnwr, 2. – Arya, Ysgol Llangynnwr, 3. – Scarlett May Leevis, Ysgol Llangynnwr. Celf Blwyddyn 5 a 6 – 1. Gwenllian, Ysgol Y Fro, 2. – Dafydd Evans, Ysgol Mynydd-y-garreg, 3. – Ewan, Ysgol Y Fro. Ffotograffiaeth Bl. 1-6 – 1. Ewen, Ysgol Y Fro, 2. – Joseff, Ysgol Y Fro.

**CERDD** (agored)
Unawd Bl. 1 a 2 neu iau – Ifan Wyn Morris; Unawd Bl. 3 a 4 – Greta Ann Jones; Unawd Bl. 5 a 6 – Miriam Elsi Grim; Unawd Alaw Werin dan 19 – Cerys Knight; Unawd Bl. 7, 8 a 9 – Cerys Knight; Parti/Côr mudiadau lleol – Capel Penygraig; Emyn dros 50 – David Maybury; Her unawd – Gerwyn Rhys; Cenwch i'm yr Hen Ganiadau – David Maybury.

**LLEFARU** (agored)
Llefaru Bl. 1 a 2 neu iau – Ifan Wyn Morris; Llefaru Bl. 3 a 4 – Greta Ann Jones; Llefaru Bl. 5 a 6 – Betsi Mei Owen; Llefaru Bl. 7, 8 a 9 – Cerys Knight; Darllen darn o'r Ysgrythur ar y pryd, dros 19 – Maria Evans; Her Adroddiad – Maria Evans.

**LLENYDDIAETH**
Y Gadair – Terwyn Tomos, Llandudoch; Tlws yr Ifanc – Gruffudd ab Owain, Y Bala; Englyn – Nia Llewelyn, Llandsyul; Gorffen Limrig – Megan Richards, Aberaeron. Blwyddyn 7 - 9 llunio blog - 1. Hawys Davies, Ysgol Bro Teifi, 2. Erin Hana Rees, Ysgol Bro Teifi. Bl. 1-6 ysgolion cynradd lleol - 1. – Bertie Williams, 2. – Darcey Wray, 3. – Cydradd, Charlie Thorpe ac Isabel Hughes.

*   *   *




2022


CYNTAF




CYNTAF